Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cwmpadarn
# Penygraig
# Llanbadarn Fawr
# Aberystwyth
# SY23 3SG

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cwmpadarn wedi ei lleoli ym mhentref Llanbadarn, ger Aberystwyth ac mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal o gwmpas. Daw'r disgyblion o ystod eang o gefndiroedd gwahanol ac mae tua 20% ohonynt yn byw o fewn ardal 'Cymunedau'n Gyntaf'. Mae gan oddeutu 26% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sydd yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng yn sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, a gynhaliwyd ym Mai 2006. Ar hyn o bryd, mae 72 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed yn yr ysgol ac maent wedi'u trefnu'n dri dosbarth o oedrannau cymysg. Mae oddeutu pedwar y cant o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol ond nid oes yr un disgybl sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae oddeutu pymtheg y cant o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r disgyblion yn cwmpasu ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae gan oddeutu 27% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sydd yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae nifer fechan o ddisgyblion â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Cwmpadarn yn 2011-2012 yn golygu cyllideb o £3,502 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ceredigion yw £8,706 a'r isafswm yw £2,987. Mae Ysgol Gynradd Cwmpadarn yn 39fed o'r 60 ysgol gynradd yn Awdurdod Ceredigion o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Oherwydd afiechyd y pennaeth, roedd pennaeth dros dro yn gofalu am yr ysgol yn ystod yr arolygiad.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd ar y cyfan yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn drwy'r ysgol;
- cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu, gan fwyaf, yn dda;
- disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn dda;
- ansawdd yr addysgu, ar y cyfan, yn dda; a'r
- ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol;
- llywodraethwyr yn chwarae rôl flaengar wrth adnabod blaenoriaethau a chynllunio gwelliannau;
- prosesau hunan-arfarnu a chynllunio strategol effeithiol yn rhan reolaidd o fywyd yr ysgol;
- yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd; a bod
- yr ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu gref.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 gynyddu'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefelau uwch ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A2 gwella ansawdd y rhaglenni ymyrraeth a'r gyfer disgyblion â medrau llythrennedd isel; a

A3 darparu gwell cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i sylwadau athrawon ar eu gwaith.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'u medrau llafar, llythrennedd a chyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Mae bron pob un yn mynegi eu syniadau'n glir ar lafar ac, erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen yn hyderus a chywir ac yn ysgrifennu i safon dda. Gan amlaf, maent yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn cyfleu eu barnau a'u syniadau'n hyderus. Maent yn darllen ar goedd yn ystyrlon a chyda goslef briodol ac erbyn Blwyddyn 5, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu llyfrau yn ddeallus. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda mewn ffurfiau amrywiol ac at wahanol ddibenion. Mae gwallau sillafu yn amlwg yng ngwaith ysgrifenedig ychydig o'r disgyblion.

Ar draws yr ystod oedran, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth gaffael medrau llythrennedd a chyfathrebu yn yr iaith Gymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac i mewn i gyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyder a chywirdeb cynyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol. Yn 2011, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg ail iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cymharu'n ffafriol iawn â pherfformiad ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefelau disgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnodau allweddol 1 a 2 yn debyg i'r meincnodau chenedlaethol ac ag ysgolion tebyg. Mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn y tri phwnc gan amlaf wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, roedd nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefelau uwch (lefelau 3 a 5) wedi bod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol a pherfformiad y teulu. Nid oes patrwm o danberfformio gan fechgyn na merched yn yr un cyfnod allweddol.

Ar y cyfan, mae cyflawniad a chynnydd wrth ddysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mewn sesiynau dysgu ac yn eu llyfrau gwaith, mae safonau a chynnydd llawer o'r disgyblion yn gyson a phriodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn cyflawni eu tasgau'n llwyddiannus. Mae ychydig o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion o allu uwch nad ydynt bob amser yn cyflawni ar lefel sy'n cyfateb i'w gallu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ymddygiad yn dda ymhob

dosbarth gyda disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at oedolion.

Yn ystod y rhan fwyaf o'r gwersi, mae disgyblion o bob oedran yn weithgar a brwdfrydig ac yn wynebu heriau a dysgu newydd yn hyderus. Maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnod estynedig. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gael bwydydd iachus ac i ddatblygu ffitrwydd.

Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau ac yn elwa o amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau, gan gynnwys y cyngor ysgol a'r grŵp eco. Mae gan y cyngor rôl weithredol ym mywyd yr ysgol ac mae'r aelodau'n mwynhau'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau.

Mae cyfraddau presenoldeb yn gyson dda ac yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gyson uwch na chyfraddau Cymru gyfan ac ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Gan fwyaf, mae'r ystod o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion y disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ehangder o brofiadau dysgu diddorol yn galluogi plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol. Mae'r ardal y tu allan yn cael ei defnyddio i bwrpas i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion. Mae'r cynllunio yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n effeithiol ar wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau, ac yn arbennig medrau llythrennedd, wedi'u cynllunio'n ofalus trwy'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglenni ymyrraeth a gyflwynir i ddisgyblion â medrau llythrennedd isel wedi'u teilwra'n ddigonol ar gyfer anghenion dysgu'r unigolion ac, o ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn gwneud y cynnydd disgwyliedig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda ac yn galluogi i'r mwyafrif o'r disgyblion wneud cynnydd priodol. Mae'r cwricwlwm, ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Gan fwyaf, mae'r addysgu yn dda ac mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus ac yn paratoi'n drylwyr. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac mae perthynas glos

rhwng oedolion a disgyblion.  Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol.  Mae amcanion clir i lawer o'r sesiynau a chyflymdra addas i'r addysgu.  Defnyddia'r athrawon ystod dda o adnoddau a strategaethau addysgu yn ddychmygus er mwyn ysgogi diddordeb a sicrhau cyfranogiad disgyblion.  Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn sicrhau lefel addas o her ar gyfer y disgyblion o'r holl ystod gallu.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth rheolaidd ar lafar i gyfeirio disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu.  Caiff llyfrau eu marcio'n rheolaidd ac yn y llyfrau iaith yn bennaf, ychwanegir sylwadau defnyddiol ar sut i wella.  Fodd bynnag, nid yw'n arfer cyson i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion roi sylw i weithredu'r gwelliannau penodol hynny.  Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfleoedd da i adfyfyrio ar eu dysgu a gwyddant yn dda am eu targedau personol.

Mae systemau clir ac effeithlon i dracio a chadw gwybodaeth ar gynnydd disgyblion.  Caiff profion safonedig eu defnyddio'n bwrpasol ac mae trefniadau addas i gofnodi cynnydd yn ôl asesiadau athrawon.  Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda drwy'r ysgol ac yn cryfhau gallu disgyblion i arfarnu gwaith eu hunain.  Mae ansawdd yr adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd eu plant yn dda a darperir cyfleoedd priodol i'r rhieni ymateb iddynt.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd a lles y disgyblion yn dda.  Darperir amgylchedd cynnes a chroesawgar ar gyfer y disgyblion, ac mae staff yn sicrhau bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu.  Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau lles emosiynol a chorfforol disgyblion.  Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iachus a thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.  Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac yn sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau.

Trwy ystod eang o brofiadau, caiff datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei hyrwyddo'n llwyddiannus.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol.  Mae hyn yn cynnwys prosbectws yr ysgol, gwefan, cylchlythyrau rheolaidd ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn addas.  Caiff anghenion y disgyblion hyn eu hadnabod yn gynnar a llunnir cynlluniau addysg unigol priodol ar gyfer pob disgybl.  Mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r asiantaethau arbenigol priodol, adolygir y cynlluniau'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, lle caiff disgyblion fynediad cyfartal i'r ystod o ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol.  Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod,

parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy’n meithrin gofal a goddefgarwch. Mae cyflenwad o adnoddau addas o ansawdd da sy’n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu. Mae’r adeilad o ansawdd da ac mae’r ysgol yn defnyddio pob gofod er lles yr holl ddisgyblion. Mae’r ardal allanol, yn cynnwys gardd a phagoda’r ysgol, yn adnodd gwerthfawr a diddorol sy’n cynnig amrywiaeth o brofiadau ysgogol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol ac maent yn llwyddo i gydlynu ymdrechion llywodraethwyr, staff a’r rhieni yn effeithiol. Mae’r rhanddeiliaid oll yn ymrwymedig i nodau ac amcanion yr ysgol ac yn hyrwyddo ymddygiadau a gwerthoedd. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarnhaol at greu ethos lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae polisïau eglur sy’n canolbwyntio ar anghenion disgyblion ac mae staff a llywodraethwyr yn eu deall a’u gweithredu yn gydwybodol.

Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn cydweithio’n agos fel tîm ac yn barod iawn i roi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio. Maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn. Trwy drefniadau rheoli perfformiad trylwyr, caiff anghenion hyfforddi a datblygu staff ynghyd ag anghenion yr ysgol, eu hadnabod a'u diwallu'n effeithiol.

Mae’r corff llywodraethol yn chwarae rôl flaengar wrth adnabod blaenoriaethau a chynllunio gwelliannau. Trwy hunanarfarnu, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’r ffordd mae’r ysgol yn perfformio a chaiff hyn ei gryfhau ymhellach trwy nifer o ymweliadau ac arsylwadau ar y cyd gyda staff. Maent yn herio’r ysgol fel ffrind beirniadol yn effeithiol ac yn mynd i’r afael yn ddiymdroi ag unrhyw bryderon neu gwynion.

Mae parodrwydd yr ysgol i ymgorffori nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei rhaglen waith wedi arwain at welliannau mewn darpariaeth ac yn nysgu’r disgyblion. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau ac mae athroniaeth a dulliau gweithio’r Cyfnod Sylfaen wedi’u sefydlu’n gadarn iawn yn nosbarth y disgyblion ieuengaf.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio strategol yn rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol gyda staff yn ymdrechu’n barhaus i wella ar berfformiad blaenorol. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddangosyddion gan gynnwys tystiolaeth gan asiantaethau eraill megis gwasanaeth ymgynghorol yr awdurdod lleol, wrth ddod i farn am berfformiad cyfredol.

Defnyddir data perfformiad yn effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae’r ysgol yn gofyn barn disgyblion a’r rhieni/gofalwyr yn rheolaidd ac yn ystyried yn ofalus unrhyw awgrymiadau a wneir. Mae'r broses hon yn sicrhau gwelliant cynyddol. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cyfleu darlun gonest o'i

sefyllfa gyfredol ac yn nodi'n glir y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae’r broses hunanarfarnu yn arwain at gynlluniau datblygu perthnasol sy’n cael eu gweithredu’n gydwybodol a’u monitro yn erbyn targedau clir a meini prawf llwyddiant penodol. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus mewn safonau ac ansawdd.

Mae’r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu gref ac wedi sefydlu diwylliant o gydweithio clos gyda nifer o ysgolion eraill yn yr ardal leol a thu hwnt. Mae effaith y rhwydweithiau a chymunedau dysgu proffesiynol hyn wedi hyrwyddo gwelliannau mewn nifer o feysydd. Mae hyn yn cynnwys gwella safonau llythrennedd bechgyn, ac wedi bod yn gyfrwng allweddol i ddatblygu a rhannu arferion da.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio mewn modd strategol gyda nifer eang o bartneriaid i wella safonau a lles disgyblion. Mae’r rhain yn cynnwys y rhieni, ysgolion eraill lleol ac yn fyd-eang, y gymuned a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon. Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda’r awdurdod lleol. Mae'r cysylltiadau pontio cryf iawn sydd rhwng y cylch meithrin a'r ysgol yn gwneud yn siŵr bod plant meithrin yn ymgartrefu'n gyflym â bywyd yr ysgol a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Bydd yr ysgol hefyd yn cydweithio'n glos gyda chlwstwr o ysgolion cynradd lleol a chyda'r ysgolion uwchradd lleol ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon. Mae'r trefniadau pontio cynhwysfawr gydag ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staff eu cefnogi gan raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy’n eu galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd a datblygu arferion da ar gyfer dysgu ac addysgu. Caiff staffio ac adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae’r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda trwy fanteisio'n llawn ar eu hamser a'u harbenigedd i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu eu hadolygu'n gyson a chynllunnir yn fanwl ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

Mae trefniadau cyllidebu systematig a phriodol yn eu lle ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1 yn ystod tair o'r pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed) wedi bod yn bennaf yn y 50% isaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae canlyniadau mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion sydd yn yr un teulu.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf yn gadarnhaol gyda chanran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch (y lefel ddisgwyliedig) yn y 50% uchaf o gymharu â'r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn y ddwy flynedd diwethaf mae canlyniadau gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion sydd yn yr un teulu.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011 mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol â'r meincnodau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn yr un teulu. Mae canlyniadau Saesneg ychydig yn is na'r meincnodau cenedlaethol. Mae nifer y disgyblion mwy galluog a gyrhaeddodd y lefel 3 uwch mewn Saesneg ac yn arbennig gwyddoniaeth, yn is na chyfartaledd y teulu. Mae'r nifer a gyrhaeddodd lefel tri mewn mathemateg yn debyg i'r meincnodau cenedlaethol a'r teulu.

Yn 2011, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn debyg iawn i'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau ysgolion o'r un teulu. Mae'r gyfran o'r disgyblion a gyrhaeddodd y lefel 5 uwch yn unrhyw un o'r pynciau ychydig yn is na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Llenwodd 23 o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef oddeutu traean o deuluoedd yr ysgol. Roedd bron pob holiadur yn mynegi bodlonrwydd llwyr ynghylch yr ysgol gyda’r rhieni yn dweud bod:

- eu plentyn wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol a'i fod yn hoffi'r ysgol;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda, bod disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod staff yn parchu pob unigolyn;
- eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a'i fod yn ddiogel tra yn yr ysgol;
- yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a'i fod wedi ei baratoi’n dda ar gyfer symud i'r ysgol nesaf; a
- bod yr addysgu’n dda a’r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed ychydig o rieni nad yw eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac nad ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Roedd y mwyafrif o'r 34 o holiaduron disgyblion a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol. Dywed pob plentyn:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff rheolaidd a’u bod yn cael help gan athrawon ac oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd; a
- bod gwaith cartref yn eu helpu i wneud cynnydd.

Dywed bron i hanner y disgyblion nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda a bod hyn yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Trebor Roberts | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Elfed Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alwyn Ward | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.